

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Ebrill 2019.

- 1 Presennol - Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry - Bryncir, John Jones,- Garndolbenmaen, Richard Williams, Gwilym Evans - Prenteg, Huw Pritchard- Pentrefelin, Megan Ll Williams Amanda N Owen - Golan, Cyngorydd Stephen Churchman, Cyngorydd Alwyn Gruffydd.
- 2 Ymddiheuriadau - Maldwyn Owen, Clifford Williams, Anwen Humphreys, Dafydd Thomas, Delyth Evans, Gwenno Huws.
- 3 Ddim yn bresennol- neb.
- 4 Datgan buddiant - neb

### 4a Sedd Wag Pentrefelin a Phenmorfa

Llythyrau wedi eu derbyn gan Eifion Williams (Is-gadeirydd) a Meinir Raine yn hysbysu'r Cyngor o'u bwriad i sefyll lawr o'u seddau. Clerc i lythyru i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth a hefyd cysylltu gyda Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd.

Yn sgil ymddiswyddiad yr Is-gadeirydd ac ar ôl trafodaeth, derbyniwyd y cynigion canlynol -

1. Y Cadeirydd presennol yn parhau yn ei swydd am flwyddyn ychwanegol (tan Mai 2021). Cynigiwyd gan Richard Parry a John Jones yn eilio.
2. Penodi Is-gadeirydd o ward Prenteg yn hytrach na Phenmorfa. Cynigiwyd gan Amanda N Owen a Huw Pritchard yn eilio.

Pleidleisiwyd ar y cynigion a derbyniwyd yr ail gynnig. Etholwyd Richard Williams yn Is-gadeirydd.

- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion - 7/3/19 Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a Richard Williams yn eilio.
- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Lloches bws Pentrefelin - safle ar ôl Mor Awelon a Coedmor yn anaddas. Cyngor Gwynedd yn awgrymu safle ar draws y lôn. Cyngorydd Stephen

Churchman am holi'r preswylwr sydd wedi gwneud y cais a fyddai hyn o ddefnydd. Trafodwyd y posibilrwydd o osod y lloches ar y tir lle'r oedd y ciosg. Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Materion Priffyrdd Golan - Gosodiad yr arwydd ar ben lôn Tabor - y mater wedi ei gyfeirio at yr Asiantaeth Cefnffyrdd ac Adran Amgylchedd y Cyngor.

Lôn Llidiart y Cwpwl - nid oedd yr enw yn gyfarwydd i Gyngor Gwynedd. Clerc wedi rhoi rhifau cyswllt ffôn y 2 Gynghorwr lleol i'r Archwiliwr Priffyrdd er mwyn iddynt gael cadarnhau'r lleoliad.

## 7 Mynwentydd

### Mynwent Bethel

Drws y cwt. Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards i ofyn am bris i wneud y gwaith hatgyweirio.

Gosod carreg goffa llwch ar fedd - rhoddwyd caniatâd i hyn. Trafodwyd fod angen ystyried rhoi uchafswm maint y cerrig sydd yn cael ei gosod wrth fedd.

Eglwys Cwm Pennant - Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cysylltu i ofyn am ganiatâd i osod sgaffaldiau o amgylch yr adeilad er mwyn cael atgyweirio'r to. Rhoddwyd caniatâd ar yr amod ei bod yn gyfrifol petai unrhyw ddifrod yn digwydd yn y fynwent.

Bwlch yn y wal ar yr ochor chwith - Clerc i gysylltu gyda Dylan Edwards i holi am bris i wneud y gwaith.

## 8 Llwybrau Cyhoeddus

Dim i'w adrodd.

## 9 Adroddiad Pentrefi

### Pentrefelin

Derbyniwyd cwyn ynglŷn â'r tyllau yn lôn Treflys o Bont Wern at Fryn Derwen. Hefyd cyflwr y bocs halen ar dop allt Tŷ Mawr. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Cwm Pennant - coed yn yr afon wrth y bont sydd yn ymyl yr Eglwys.

Prenteg - angen clirio canghennau yn Bont y Traeth.

Clerc i gysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Prenteg

Sbwriel yn y gilfach parcio wrth Fronolau. Clerc i gysylltu gydag Adran Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd.

### Garndolbenmaen

Gwaith glanhau'r cwteri o Cambrian Terrace i lawr i'r lôn fawr heb gael ei wneud. Clerc i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd.

### Cymdeithas Gymunedol Garndolbenmaen - diweddariad

Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddogion y Swyddfa Bost ynglŷn â lleoli'r Post yn yr adeilad. Nid ydynt wedi cael cadarnhad ei bod wedi llwyddo i gael grantiau.

## 10 Ffioedd Claddu

Derbyniwyd prisiau cyfredol am agor beddau gan y torrwr beddau. Clerc i wneud ymholiadau pellach am brisiau claddu sydd yn cael eu codi ym mynwentydd eraill.

## 11 E-bost Cynghorydd Michael Parry Cyngor Tref Pwllheli

Derbyniwyd e-bost gan y Cynghorydd Michael Parry yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w ymdrech i lobio gwahanol sefydliadau meddygol ynglŷn â bwriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gau adran fasgwlaidd

Ysbyty Gwynedd. Penderfynwyd cefnogi ei ymdrech ac i arwyddo'r ddeiseb sydd ar lein.

## 12 Gwahoddiad Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Derbyniwyd gwahoddiad gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth i fynychu cyfarfod ym mis Mai (dyddiad i'w bennu) i drafod ffyrdd y gall y cyngorhau cymuned gyd-weithio. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu os yw'r dyddiad yn gyfleus.

## 13 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd - dim.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Mabon ap Gwynfor - cytundeb BDO/Grant Thornton yn dod i ben yn 2020.
- b Gwahoddiad Heddlu Gogledd Cymru - codi ymwybyddiaeth o dwyll a sgamiau yn ein hardal.
- c Llythyr Canolfan Gymdeithasol Golan - codi rhent i £25.
- ch Llythyr Tanya Paganuzzi.  
Ychwanegwyd
- d Llythyrau diolch am roddion ariannol - Neuadd Penmorfa, Cylch Meithrin Tremadog.
- dd Cyngor Gwynedd - Credyd Cynhwysol.
- e Cyngor Iechyd Cymuned - amser mae cleifion yn aros mewn ysbytai.

## 14 Cynllunio

Rhestrau 11/3, 18/3, 25/3 Ychwanegwyd 1/4/19.

Ceisiadau Cynllunio - dim.

## 15 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian:

Monitro'r gyllideb: Adroddwyd fod y gwariant am y flwyddyn o fewn y gyllideb a osodwyd. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau ar ôl i'r llyfrau cael eu harchwilio.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£246.53
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 61.63
Gwasg y Bwthyn	=	£ 14.88
Ychwanegwyd:		
Gwasg y Bwthyn	=	£ 15.00
Derbyniadau: Pritchard & Griffiths		£580.00.

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,801.00 Cyfredol £4403.68

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Credyd Cynhwysol
- Uned Fasgwlaidd Ysbyty Gwynedd
- Cyfarfod Blynyddol

Gwefan - Poster credyd cynhwysol, cyfarfod blynyddol.